CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 803 (Cy.97)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gall fod gan berson sy'n arfer yr hawl i brynu tŷ annedd yng Nghymru yr hawl o dan Ran V o Ddeddf Tai 1985 ("y Ddeddf"), o dan adrannau 129 i 131 o Atodlen 4 i'r Ddeddf, i ddisgownt sy'n gymesur â chanran o'r pris cyn disgownt.

Mae adran 131 o'r Ddeddf yn darparu terfynau ar swm y disgownt y mae gan brynwr arfaethedig hawl iddo ac mae adran 131(2) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchymyn yn rhagnodi'r mwyafswm y gellir gostwng y pris sy'n daladwy am y tŷ annedd o dan y cynllun hawl i brynu. Breinir y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru.

O dan adran 131(2), gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol Orchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau ar y Disgownt) (Cymru) 1999 ("y prif Orchymyn") a ragnododd, ymysg pethau eraill, mai mwyafswm y disgownt hwn oedd £24,000. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif Orchymyn drwy ddarparu mai mwyafswm y disgownt sydd ar gael yw £16,000.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 803 (W.97)

# HOUSING, WALES

# The Housing (Right to Buy) (Limits of Discount) (Amendment) (Wales) Order 2003

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

A person exercising the right to buy a dwelling-house in Wales under Part V of the Housing Act 1985 ("the Act") may be entitled, under sections 129 to 131 of and Schedule 4 to the Act, to a discount equal to a percentage of the price before discount.

Section 131 of the Act provides limits upon the amount of discount to which the proposed purchaser is entitled and section 131(2) empowers the Secretary of State to make an Order prescribing the maximum sum by which the price payable for a dwelling house under the right to buy scheme may be reduced by discount. The powers given to the Secretary of State by section 131 of the Act are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales.

Under section 131(2), the Secretary of State made the Housing (Right to Buy) (Limits on Discount) (Wales) Order 1999 ("the Principal Order") which prescribed, amongst other matters, that this maximum discount was £24,000. This Order amends the Principal Order by providing that the maximum discount available is £16,000.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 803 (Cy.97)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *19 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | *2 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 131(2) o Ddeddf Tai 1985(**a**) sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**b**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 2 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriad at y "prif Orchymyn" yn gyfeiriad at Orchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Cymru) 1999(**c**).

**Diwygio Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Cymru) 1999**

**3**. Yn erthygl 3 (Mwyafswm disgowntau) o'r prif Orchymyn yn lle'r ffigur "£24,000" rhodder y ffigur "£16,000".

(a) 1985 p.68.

(b) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1999/292.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 803 (W.97)

# HOUSING, WALES

## The Housing (Right to Buy) (Limits of Discount) (Amendment) (Wales) Order 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *19th March 2003* |
| *Coming into force* | *2nd April 2003* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the power given to the Secretary of State by section 131(2) of the Housing Act 1985(**a**) which is now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**):

**Name, commencement and application**

**1.**-(1) The name of this Order is the Housing (Right to Buy) (Limits of Discount) (Amendment) (Wales) Order 2003 and it comes into force on 2nd April 2003.

(2) This Order applies to Wales only.

**Interpretation**

**2**. In this Order a reference to the "Principal Order" is a reference to the Housing (Right to Buy)(Limits on Discount)(Wales) Order 1999(**c**).

**Amendment to the Housing (Right to Buy) (Limits on Discount) (Wales) Order 1999**

**3**. In article 3 (Maximum discounts) of the Principal Order the figure "£24,000" is replaced with the figure "£16,000".

(a) 1985 c.68.

(b) *See* article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1999/292.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

19 Mawrth 2003

19th March 2003

*D.Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2003 Rhif 803 (Cy.97)

## TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Terfynau'r Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 No. 803 (W.97)

## HOUSING, WALES

The Housing (Right to Buy) (Limits of Discount) (Amendment) (Wales) Order 2003

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090709-4

9 780110 907093

**£1.75**

W101/04/03 ON